CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 2 RHAGFYR 2008

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng M Powell-Jones

Cynghorwyr
H W Roberts, W R Owen, H Edwards, W T Owen, I C Thomas, A Y Williams, G Parry, M Davies, R Bonner Pritchard, M Thomas, W Ll Davies, A Roberts

Gweddïau
Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Caplan Y Maer - Parch G Williams

1. Ymddiheuriadau

Cyng A Kirk, Cyng R Anderson, Cyng O T Owen

2. Cyhoeddiadau'r Maer

- Gardd Heddwch - dadorchuddio cofeb
- Ffair Nadolig – Sefydliad y Galon
- Noson Elusennol Maer Conwy
- Ffair Nadolig – NSPCC
- Ymddiheuro i Noson Rotary
- Diolch i'r Dirprwy Faer am fynychu Noson yn Biwmaris

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen – Cynllunio a trwyddedu
I C Thomas – Cynllunio a trwyddedu
W R Owen – Cynllunio a stoc tai
H Edwards – Cynllunio

4. Eitemau Brys

Diweddariad Partneriaeth Caernarfon

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol: -

i. Cyngor 4 Tachwedd 2008
ii. Pwyllgor Adloniant 4 Tachwedd 2008
iii. Pwyllgor Cyffredinol 18 Tachwedd 2008

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir ar ôl y newidiadau canlynol

Cyngor – ychwanegu Cwestiwn Cyng A Roberts parthed derbyn ymatebion ar eitemau cynllunio

Pwyllgor- ychwanegu "mewn egwyddor " ynghylch ac e -bost Mr Williams eitem 10 , a'r ffaith bod Cyng W Ll Davies yn bresennol

6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

Penderfynwyd

I anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Llywodraethwr – Ysgol Maesincla

Yn dilyn ymddiswyddiad Cyng A Kirk

Penderfynwyd

Ethol Cyng M Powell-Jones i gynrychioli'r Cyngor

10. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Cynllun Cyhoeddi i'w fabwysiadu

Penderfynwyd

Derbyn a mabwysiadu ond angen ychwanegu polisïau yn y flwydd yn newydd

11. Rhybudd o Gynnig

Cyng. Myfi Powell-Jones

Penderfynwyd

Symud yr eitem i'r Pwyllgor nesaf

12. Cyngor Gwynedd

Fferyllfa'r Castell

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13. Cyngor Gwynedd

Parthed trwydded Morgan Lloyd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. Llythyr Prif Uwch-arolygydd

Parthed Plismona Cefn Gwlad

Penderfynwyd

Llythyru yn ôl yn nodi ein siom o'r ton bygythiol a ddefnyddiwyd yn y llythyr, ac hefyd estyn gwahoddiad i Cynghorwyr Sir (Charles Jones a Selwyn Griffiths)sydd yn eistedd ar Bwrdd Awdurdod yr Heddlu i gyfarfod o'r Cyngor

15. Cyngor Gwynedd

Gwaharddiad Aros a Chyfyngu - Symudiadau – Y Maes

Penderfynwyd

Anfon sylwadau i'w ystyried
Dyma'r sylwadau a wnaethpwyd gan Cyng. A Roberts
Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwaharddiad Aros a Chyfyngu Symudiad

Tybed a ellir fod yn fwy penodol ynglyn a "ff" ac o dan rhai amgylchiadau lle bo'r cerbyd yn gerbyd person methedig..

Sylwer ar reolau Cynllun y Bathodyn Glas " fel arfer gall deiliaid Bathodyn barcio ar linell felen ddwbl am hyd at dair awr yng Ng hymru a Lloegr ." Faint o amser mae pobl anabl yn cael parcio yn Stryd Llyn? A fydd yr amser yn cael ei gyfyngu i oriau arbennig fel sy'n digwydd yn bresennol.

Tybed a all pobl sydd a bathodynnau glas g ael parcio yn Stryd Llyn tan 11.30 a.m. ar Ddydd Sul o herwydd gwasanaethau yng Nghapel Salem a hefyd ar ôl 5 p.m. bob diwrnod o'r wythnos oherwydd cynhelir digwyddiadau yng Nghapel Salem yn achlysurol gyda'r hwyr.

Ydy llwytho a dadlwytho nwyddau i ddigwydd drwy'r dydd? Meddylier am y loriau enfawr sy'n dadl wytho yno'n bresennol.

16. 'British Korean Veterans Association'

Gofyn am ganiatâd i orymdeithio trwy'r dre

Penderfynwyd

Caniatáu a croesawu'r ffaith iddynt d dewis Caernarfon

17. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Galwad am dystiolaeth

Penderfynwyd

Gan nad ydym y n ymwybodol o'r telerau presennol , unrhyw un sydd yn dymuno anfon sylwadau i wneud hynny yn uniongyrchol

18. Panel Dyfarnu Cymru

Adroddiad Blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

19. Llythyrau Diolch

i. Urdd Gobaith Cymru
ii. Pobl Peblig
iii. Bobath Therapy Plant
iv. Clwb Golff Caernarfon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

20. Adroddiad 'Cymuned ar y Cyd'

Cyng. A. Roberts

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad , ond pwyso ar Cyngor Sir i ail gyfarfod a'r gweithgor er mwyn symud ymlaen , ac ethol Cyng. W R Owen i fod yn aelod ne wydd o'r gweithgor er mwyn cael cynghorydd Sir ar y pwyllgor (A Cyng. W T Owen wrth gefn)

21. Cyngor Gwynedd

Prosiect Pleidlais Stoc Tai Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd

Gwahodd Ffrancon Williams fel siaradwr gwadd a nodi bob cynghorwyr tref yn dymuno cael copïau o'r taflenni

22. Unllais Cymru

Manylion Wefan ar gael gan y Clerc

Penderfynwyd

Unrhyw un a diddordeb i ofyn wrth y clerc am fanylion

23. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

24. Cwestiynau

Oes modd cwyno wrth y swyddfa bost nad ydi post dosb arth cyntaf ni yn cyrraedd ar amser?

Oes

26. **Partneriaeth Caernarfon**

Diweddariad gan Cyng. I C Thomas

Derbyniwyd casgliadau terfynol Cymdeithion Sian Shakespear parthed cynllun Naws am Le – Rhaglen dehongli a marchnata Caernarfon

Eglurais fel cadeirydd o Gr wp Llywio Partneriaeth Caernarfon, er bod Sian Shakespear a'i cymdeithion wedi edrych ar y strategaeth ddehongli a'r strategaeth Farchnata, mai prif pwrpas y cyfarfod hwn oedd ystyried sut i fwrw ymlaen o ran gweithredu'r Strategaeth Farchnata.

Amlinellodd Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd y cefndir i gomisiynu'r gwaith ymchwil. Eglurodd nad oedd y Cyngor fel corff yn rhan o strwythur marchnata gwahanol drefi a'i fod yn hytrach, yn canolbwyntio ar farchnata rhanbarthau o'r Sir. Fodd bynnag, gan fod swm unwaith ac am byth o £15000 wedi ei glustnod o gronfa dwristiaeth i farchnata Caernarfon 'roedd yn awyddus i weld strwythurau clir yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r arian hwnnw

Rhoddodd Sian Shakespear gyflwyniad manwl ar ei gwaith ymchwil gan bwysleisio'r angen i bawb gydweithio er mwyn cyrraedd y nod . Eglurodd lle roedd wedi cyrraedd gyda'r gwaith gan nodi mai'r gamp fawr fyddai rhoi'r holl strategaeth ar waith.

Cyflwynodd yr egwyd dorion o raglen Marchnata a ganlyn:

- Canolbwyntio ar Gaernarfon
- Bod yn Gynhwysol
- Bod yn proffesiynol
- Cadarnhaol tuag at bob busnes
- Credadwy a thryloyw
- Annibynnol o'r Cyngor
- Pwrpas o roi Caernarfon ar y map
- Sianelau cyfathrebu agored a chlir

Cytunwyd a'r rhestr egwyddorion a nododd Sian Shakespear fod angen edrych ar hyn i gyd yn y tymor byr a'r tymor hwy

Yna cyflwynwyd y pedwar model gweithredu a gofynnwyd i'r aelodau ddewis yr opsiwn gorau yn eu tyb hwy:

Opsiwn 1 a – pawb sydd a diddordeb mewn marchnat a i ymaelodi a phwyllgor yn cael ei dynnu o hwn

Opsiwn 1 b – corff gyda grwp creiddiol o gynrychiolwyr o fudd - ddeiliaid sydd wedi'u henwi ac aelodaeth ehangach

Opsiwn 2 a – Partneriaeth Caernarfon i ddenu aelodau newydd a gweithredu fel ambarél i grwpiau gwahanol i wireddu gwahanol brosiectau marchnata

Opsiwn 2 b – Un corff/grwp presennol i rannu'r prosiectau ymysg grwpiau eraill sy'n bodoli yn barod ac yn dosrannu'r arian yn yr un modd .

Yn y Partneriaeth penderfynwyd arddel opsiwn 1 b ac felly mae an gen cynrychiolydd ar ran y Cyngor Tref

Penderfynwyd
Ethol y clerc i fynychu a Cyng. I C Thomas wrth gefn

Gorffennodd y cyfarfod am 7.15

Arwyddwyd..... Dyddiad.....

Eitem Eithriedig – eitem 25

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cyfarfod Nos Fawrth 2 Rhagfyr 2008 ,

Nodiadau ar yr eitem isod gan Hywel Roberts yn absenoldeb y staff

Agenda Eitem 25

1. Rhoddodd Cyng. Hywel Roberts, Cadeirydd y Panel Cyllid a Staff, y cefndir bod cyflogau staff y Cyngor Tref yn glwm a chyflogau Cyngor Gwynedd. Roedd cytundeb cyflogau yn cael ei gytuno'n genedlaethol ac roedd yr hyn oedd ger bron yr hyn a gytunwyd i'w dalu o fis Ebrill 2008 yml aen. Nododd fod cyflogau newydd y clerc yn rhai dros dro.

Penderfynwyd

Talu'r cyflogau newydd a'u ôl ddyddio i 1 Ebrill 2008.

2. Codwyd y cwestiwn a ddylid codi cyflog y Clerc i raddfa uwch oherwydd yr hyfforddiant a dderbyniodd a'r cymhwyster a enill odd. Atebodd Cyng. Hywel Roberts na ellid trafod y mater yma gan nad oedd ar yr Agenda ond fe fyddai'n dod a'r mater ar agenda y Panel Cyllid a Staff pryd byddai'r holl wybodaeth ar gael i'w drafod. Codwyd hefyd y mater o sicrhau fod cynlluniau hyfforddi pendant yn cael eu paratoi ac hefyd prosesau goruchwylio staff.

Penderfynwyd

Fod y materion yma yn cael eu rhoddi ar agenda'r Panel Cyllid a Staff a bod gwybodaeth cefndir yn cael ei baratoi i sicrhau trafodaeth ystyriol.